

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd S.G. Griffiths

C913 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Dywedodd yr Arweinydd, gan mai hwn oedd cyfarfod cabinet diwethaf y weinyddiaeth hon, ei fod am ddiolch i'r Aelodau Cabinet eraill am yr holl waith yr oeddent wedi'i wneud. Ar ddiwedd y cyfarfod, diolchodd yr Arweinydd hefyd i swyddogion a'r holl staff, gan ddweud na allem fod wedi cyflawni'r hyn a oedd gennym hebddynt. Cafwyd sylwadau o ddiolch gan Aelodau'r Cabinet i'r Arweinydd am ei 33 mlynedd a mwy o ymroddiad a gwasanaeth, ac yn enwedig mewn perthynas â'i arweinyddiaeth yn ystod pandemig Covid-19. Roedd gan Aelodau'r Cabinet hefyd eiriau pellach o werthfawrogiad am waith caled ac ymroddiad y staff.

C914 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

C915 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C916 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: CANLLAWIAU STATUDOL SAFONAU YMDDYGIAD (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Ac Adnoddau Corfforaethol dyddiedig 14 Ebrill, 2022.

No.

Roedd yr adroddiad yn arfarnu ymgynghoriad Pwyllgor Craffu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanllawiau ar ddyletswyddau a nodir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel
- Cydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor
- Darparu cyngor a hyfforddiant
- Gwneud Adroddiad Blynyddol.

Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adran 62) yn rhoi dyletswydd newydd ar Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad eu haelodau.

Roedd y ddyletswydd yn cydnabod y dylai'r rhai mewn swyddi o arweinyddiaeth a dylanwad o fewn Prif Gyngor fod yn gyfrifol am frwydro yn erbyn bwlio ac aflonyddu ymhlith Aelodau etholedig a staff y Cyngor a bod yn rhaid iddynt ymddwyn fel model rôl cadarnhaol. Lanswyd yr ymgynghoriad ar 21 Chwefror, 2022 ac roedd i fod i ddod i ben ar 16 Mai, 2022.

Roedd paragraff 2.2 o'r adroddiad yn manylu ar y cwestiynau o fewn yr ymgynghoriad a'r ymatebion a awgrymir i'r cwestiynau gan y Swyddog Monitro.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – bod yr ymateb a awgrymir i'r ymgynghoriad yn cael ei dderbyn a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori cyn 16 Mai, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C917 CAMAU ANNERBYNIOL GAN DDINASYDDION A PHOLISIÀU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Ac Adnoddau Corfforaethol dyddiedig 14 Ebrill, 2022 gan yr Arweinydd.

Roedd yr adroddiad cysylltiedig yn amlinellu bod y Polisi ar Gamau Annerbyniol gan Ddinasyddion (Atodiad 1) yn nodi dull y Cyngor o ymdrin â'r rhai yr ystyriwyd bod eu gweithredoedd neu eu hymddygiad yn erbyn staff a Chynghorwyr yn annerbyniol.

Roedd y term 'dinesydd' yn cynnwys unrhyw berson a gysylltodd â'r Cyngor neu a weithredodd ar ran unigolyn arall wrth wneud hynny, unrhyw achwynydd, ac unrhyw berson a ofynnodd am wybodaeth gan y Cyngor.

Roedd y Polisi yn adeiladu, yn ehangu ac yn disodli Polisi Achwynwyr Afresymol y Cyngor, ac yn cydnabod bod cyfleoedd i ryngweithio â'r Cyngor a'i swyddogion wedi lluosu â phoblogrwydd cynyddol llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd

No.

cyfathrebu'n gyflym ac yn hawdd ond gallai ddod yn ymwithiol yn gyflym ac yn anodd ei reoli ar broffiliau proffesiynol a phreifat.

Roedd y Polisi yn diffinio gweithredoedd unigolion a oedd yn ddig, yn heriol neu'n barhaus i'r graddau eu bod yn arwain at alwadau afresymol ar y Cyngor neu ymddygiad annerbyniol tuag at staff y Cyngor. Roedd y Polisi hefyd yn nodi disgwyliadau ac yn rhoi arweiniad ar sut i gyfathrebu â chleientiaid ac opsiynau/rhwymedigaethau ynghyd â phroses ddiffiniedig i symud camau gweithredu/ymateb yn eu blaenau lle'r oedd troseddau. Mae'r Polisi yn nodi'r broses fewnol ar gyfer rheoli'r Polisi ac adolygu ei gymhwysiad, gan gynnwys canllawiau i Brif Swyddogion.

Yn ogystal, mae'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am wasanaethau a digwyddiadau yn ogystal â hyrwyddo gwaith y Cyngor a sut yr oedd yn ymgysylltu â phobl ar-lein. Byddai'r Polisi yn ffurfioli'r ffordd yr oedd y Cyngor wedi bod yn gweithio yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf, gan sicrhau bod tryloywder gyda'r dull hwn a byddai'n rhannu gyda thrigolion sut yn union yr oedd y Cyngor yn gweithredu'r cyfrifon hyn.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Craffu wedi cymeradwyo'r Polisi Camau Annerbyniol gan Ddinasyddion a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol, tra'n argymhell bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyd yn cael diweddariad blynyddol ar y ddau Bolisi, fel rhan o'r adroddiad Cwntion a Chanmoliaeth Flynyddol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at e-bost gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn cynnwys tri phwynt allweddol. Roedd y pwynt cyntaf yn ymwneud â'r materion sy'n ymwneud â dosbarthu e-byst i'r Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd fod materion yn gysylltiedig ag e-byst yn cael eu derbyn a ddechreuodd nos Wener ddiwethaf ac yn anffodus roeddent wedi parhau dros y penwythnos. Roedd yr adran TG bellach wedi sylwi ar hyn y bore hwnnw ac roedd materion wedi'u datrys, gyda Swyddogion yn edrych ar e-byst a wnaed i'r Ganolfan Gyswllt. Ymddiheurodd yr Arweinydd am y materion a gafwyd a oedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Roedd yr ail bwynt a godwyd yn ymwneud â'r polisi gwreiddiol 'Achwynwyr Afresymol' a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2009 ac nad oedd erioed wedi'i roi ar-lein. Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd ei bod yn gywir nad oedd y polisi llawn erioed wedi'i gyhoeddi ar-lein gan ei fod yn canolbwyntio ar y broses gwyno ac yn wynebu'n fewnol yn bennaf. Fodd bynnag, roedd y Polisiâu newydd yn ehangach o ran yr ystod o gysylltiadau rhwng y preswylwyr a'r staff a'r Cyngor yn ogystal â Chynghorwyr, felly roedd yn briodol eu cyhoeddi ar y wefan. Felly, cyflwynodd yr Arweinydd argymhelliad ychwanegol ar gyfer y Polisi Camau Annerbyniol gan Ddinasyddion a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Roedd y trydydd pwynt yn gofyn am gynnwys adran yn egluro'r camau unioni sydd ar gael i ddinasyddion a brofodd gamau annerbyniol gan Swyddogion ac Aelodau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at wrthodiad ynghylch cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor Ymchwilio. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 yn datgan nad oedd hyn yn rhywbeth y gallai

No.

aelodau o'r cyhoedd alw amdano mewn perthynas â'r awgrym o ran y Pwyllgor Ymchwilio. Eglurodd yr Arweinydd, er nad oedd y pwynt hwn yn berthnasol i'r Polisiâu drafft dan sylw, roedd gan y Cyngor Bolisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol sydd ar gael ar gyfer cwynion dinasyddion ynghylch staff; ac y gellir cyfeirio pryderon yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau a Swyddogion at y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd neu, yn achos Aelodau, yn uniongyrchol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yna

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y Polisi Camau Annerbyniol gan Ddinasyddion a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD y Polisi Camau Annerbyniol gan Ddinasyddion a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn ystyried cynnwys yr adroddiad, sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i'r Polisiâu.

C918 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd ar 16 Mawrth, 2022 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Wedi ystyried y Cofnodion, yr oed

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r Cofnodion.

C919 CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir ar 23 Mawrth, 2022 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio fod y Gwasanaeth wedi perfformio'n eithriadol o dda a thros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac roedd yn bwysig nodi bod y Pennaeth Gwasanaeth wedi newid yn

No.

ddiweddar. Parhaodd y Gwasanaeth i ofalu am les y preswylwyr ac roedd rhai achosion proffil uchel wedi dod drwodd a gofnodwyd yn yr Atodiadau ar gyfer erlyniadau.

O ran Trwyddedu, roedd materion wedi'u codi lle'r oedd pobl wedi methu â gofalu am eu cerbydau'n iawn. Adroddwyd hefyd bod ansawdd aer yn gwella. Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch cynnig i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r adnoddau fel cydnabyddiaeth bod Cyngorau yng Nghymru yn arbennig yn ei chael hi'n anodd denu staff â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r Cofnodion.

C920 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2022 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Strategaeth Pobl ill dau wedi'u cymeradwyo gan y Fforwm.

Wedi ystyried y Cofnodion, yr oedd

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol Ar y Cyd a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2022 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r Cofnodion.

C921 PANEL YMGYNGHOROL LLYWODRAETHWYR AWDURDODAU LLEOL –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2022 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio at un ymgeisydd a oedd wedi cael cynnig swydd mewn dwy ysgol, gyda gwiriadau'n cael eu cynnal i gadarnhau a oedd hyn yn briodol ai peidio.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2022 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r Cofnodion.

**C922 POLISI CYFARFODYDD AMLLEOLIAD DIWYGIEDIG (AG/BA)
(CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Roedd y Cabinet wedi derbyn adroddiad yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr, 2021 a roddodd ddiweddariad cynnydd ar ofynion deddfwriaethol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") ac ar ddatrysiad hybrid i'w ddefnyddio yng nghyfarfodydd y Cyngor. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi nodi bod Adran 47 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol o 1 Mai, 2021 fod RHAID i bob Awdurdod Lleol wneud a chyhoeddi trefniadau er mwyn sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall a oedd yn galluogi pobl ddim yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd.

Yn unol â'r ddarpariaeth o dan Bwerau Argyfwng y Rheolwr-gyfarwyddwr (fel y'i diwygiwyd i'r Prif Weithredwr ar 24 Ionawr, 2022), cyhoeddodd y Cyngor, o 1 Mai, 2021, ei drefniadau ar gyfer Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Awdurdod Lleol a chytunwyd ar yr un pryd, oherwydd COVID 19, y byddai pob cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw wrth symud ymlaen.

Rhoddodd yr adroddiad Bolisi Presenoldeb diwygiedig i'r Cabinet mewn Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol, sef Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad gan roi sylw i ofynion y Ddeddf a Chanllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd Aml-leoliad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad a chyfeirio'r un peth at y Cyngor ac i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Roedd y Polisi'n darparu canllawiau manwl ar brosesau'r Cyngor wrth gynnal Cyfarfodydd Aml-leoliad.

Amlinellodd yr Arweinydd welliant i'r Polisi drafft, yn gofyn am ddiwygio paragraff 6.7 yn y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft yn Atodiad A i'r adroddiad i ddarllen "Cyfranogwr mewn cyfarfod (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6.1 uchod) sy'n dymuno siarad yn Gymraeg neu berson sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg mewn cyfarfod, mae'n ofynnol iddo gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf 72 awr cyn y cyfarfod." Cytunodd y Cabinet i'r gwelliant hwn gael ei adlewyrchu gyda phenderfyniad ychwanegol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI BOD Gweithdrefn Bresennol Presenoldeb o Bell mewn Cyfarfodydd y Cyngor o fewn Cyfansoddiad y Cyngor wedi'i hadolygu oherwydd darpariaethau

No.

Adrannau 46 a 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 21 a Chanllawiau Interim Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd Aml-leoliad (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021).

(2) BOD Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft, sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei argymhell i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo ac y dylid cynnwys y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

(3) Y CAIFF adolygiad o'r Polisi ei gynnal ar ôl derbyn unrhyw ganllawiau statudol pellach gan Lywodraeth Cymru, unrhyw ofynion hygrychedd a rhwymedigaethau'r Cyngor o ran Cyfranogiad y Cyhoedd.

(4) BOD y defnydd o'r weithdrefn benderfynu frys fel y'i nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei arfer er mwyn i'r Polisi Drafft a'r adroddiad gael eu hystyried gan y Cyngor Llawn ar yr un diwrnod ag a ystyriwyd gan y Cabinet.

(5) BOD paragraff 6.7 yn y Polisi Aml-leoliadau Drafft yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei ddiwygio i ddarllen "Cyfranogwr mewn cyfarfod (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6.1 uchod) sy'n dymuno siarad yn Gymraeg neu berson sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg, mewn cyfarfod mae'n ofynnol iddo gysylltu â'r Gwasanaethau Democraataidd o leiaf 72 awr cyn y cyfarfod."

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol.

(2) Er mwyn i Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad gael ei gymeradwyo i fod ar waith erbyn 5 Mai, 2022.

(3) I ystyried y canllawiau statudol a dderbyniwyd, gofynion hygrychedd a rhwymedigaethau'r Cyngor o ran Cyfranogiad y Cyhoedd.

(4) Er mwyn i'r Cyngor Llawn allu ystyried y mater ar 25 Ebrill, 2022.

(5) Er mwyn ystyried Safon Iaith Gymraeg y Cyngor rhif 33.

C923 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2020-2021 (AG/BA) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Tynnodd yr adroddiad sylw'r Cabinet at gynnydd y Cyngor yn erbyn amcanion cydraddoldeb Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024 a chamau eraill a gymerwyd i wella cydraddoldeb i bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg.

Roedd yn crynhoi'r hyn yr oedd Gwasanaethau wedi'i wneud i gasglu a dadansoddi data cydraddoldeb ar sut roedd pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig wedi defnyddio eu gwasanaethau. Nododd yr hyn yr oeddent wedi'i wneud i wneud gwelliannau yn y cyfnod adrodd 2020–2021.

No.

Gwnaeth sylwadau ar y cynnydd a wnaed gyda phob un o'r amcanion cydraddoldeb a lle'r oedd angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ei ymdrechion.

Cyfeiriodd at atodiadau a oedd yn dangos y data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan y Gwasanaethau ac adroddiad manwl ar wybodaeth am gyflogaeth.

Ar ôl i'r Cabinet ei ystyried a'i gymeradwyo, cyhoeddodd yr adroddiad a chyfeiriodd at y Pwyllgor Craffu dros Ddysgu a Diwylliant i gael sylwadau i lywio sut y parhaodd y Cyngor i ddatblygu'r gwaith hwn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol') a bod dyletswyddau penodol i Gymru.

Yr oedd y dyletswyddau penodol yn cynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn flaenorol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn i ddangos y cynnydd a wnaed ar faterion cydraddoldeb a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ac unrhyw weithgarwch cydraddoldeb cysylltiedig. Dywedodd yr Arweinydd fod drafft heb statws wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2020 - 2021, fel y'i disgrifir yng nghorff yr adroddiad ac yn Atodiad A, yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.

(2) Cyfeirir yr adroddiad at y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant i geisio barn y Pwyllgor i lywio sut i barhau i fynd i'r afael â'r gwaith hwn, gyda sylwadau'n cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd o dan y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru, a pharhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sicrhau bod ei waith cydraddoldeb ar gael i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill graffu arno, gan nodi bod drafft heb statws wedi'i gyhoeddi ar y wefan yn y cyfamser er mwyn bodloni'r gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth, 2022.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant i ystyried cynnwys yr adroddiad a rhannu barn ar ffocws gweithgarwch yn y dyfodol wrth gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-24.

C924 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL STRATEGOL FLYNYDDOL Y CABINET MEHEFIN 2022 I EBRILL 2023 A RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – IONAWR I FAWRTH 2022 AC EBRILL I FEHEFIN 2022 (AG/BA) (CRAFFU – DIM) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i Raglen Gwaith Cychwynnol Strategol Blynyddol y Cabinet ar gyfer y cyfnod 12 mis Mehefin 2022 i Ebrill 2023; cymeradwyaeth ac unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â Rhaglenni Gwaith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod Ionawr i Fawrth 2022; a gofynnodd am gymeradwyaeth i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet wedi'i diweddarau ar gyfer Ebrill i Fehefin 2022.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod y Rhaglen Waith Strategol Flynyddol, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ar gyfer y cyfnod Mehefin 2022 i Ebrill 2023 yn cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- (2) Cytuno ar y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer Ionawr i Fawrth 2022, sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- (3) Cymeradwyo Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet o fis Ebrill i fis Mehefin 2022, sydd ynghlwm yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, is-ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor wrth osod rhaglenni gwaith blynyddol.
- (2) I fonitro cynnydd.
- (3) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Ebrill i Mehefin 2022.

C925 GWAREDU TIR YN MURCH ROAD, DINAS POWYS AT DDEFNYDD CYMUNEDOL A HAMDDEN (AG/BA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Dros y tair i bedair blynedd diwethaf, roedd datblygwr hen safle Ysgol Isaf Sant Cyres a leolir yn Murch Road, Dinas Powys, (Barratts David Wilson) wedi bod yn adeiladu tai preifat a fforddiadwy newydd. Rhan allweddol o'r datblygiad oedd ardal wedi'i pharthu ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden (wedi'i ymylu'n goch yn Atodiadau A a B i'r adroddiad). Estynnodd y Parth Defnydd Cymunedol a Hamdden (CRUZ) tua 7.4 erw ac roedd wedi cael ei ddefnyddio'n rhannol fel safle caeadle dros dro gan y datblygwr wrth adeiladu'r cartrefi newydd.

No.

Yn unol â'r contract gwerthu, roedd buddiant rhydd-ddaliad y CRUZ i'w drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor ar ôl cwblhau gwaith amrywiol, gan gynnwys ail-lunio ac ail-hau. Cynigiwyd gwaredu'r darn hwn o dir i Gyngor Cymuned Dinas Powys yn rhinwedd buddiant lesddaliadol hir er mwyn hwyluso defnydd cymunedol a hamdden er budd y gymuned leol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn bwysig crybwyll, nid yn unig bod y tir cymunedol ar gael, ond bod hefyd y tir amgylcheddol, yr oedd Tîm Ecoleg y Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r datblygwyr i fodloni a gwella gofynion amgylcheddol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i'w waredu yn rhinwedd prydles 99 mlynedd ar rent rhad (ar lai na'r ystyriaeth orau yn unol â Chydsyniad Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003) y parth tir sydd wedi'i ymylu'n goch yn Atodiadau A a B i'r adroddiad at ddibenion cymunedol a hamdden.

(2) BOD, yn amodol ar gytuno ar Benderfyniad (1), dylid rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennau cyfreithiol sy'n ofynnol i hwyluso'r brydles i Gyngor Cymuned Dinas Powys.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Hwyluso'r gwaredu yn rhinwedd prydles hir, y Parth Defnydd Cymunedol a Hamdden i Gyngor Cymuned Dinas Powys.

(2) Er mwyn gallu paratoi, gweithredu a chwblhau agweddau cyfreithiol y gwaredu.

C926 CANLLAW CYFANSODDIAD MODEL DRAFFT (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ac amlinellodd fod Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Brif Gyngorau i gyhoeddi Canllaw i'r Cyfansoddiad ac i Gyfansoddiad y Cyngor a'r Canllaw gael eu cyhoeddi'n electronig.

Roedd Cyfansoddiad y Cyngor wedi bod ar gael yn electronig ers peth amser, ond o 5 Mai, rhaid paratoi a chyhoeddi'n electronig Canllaw sy'n esbonio'r Cyfansoddiad ei hun mewn iaith gyffredin hefyd. Comisiynwyd Browne Jacobson (Cyfreithwyr) gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan i baratoi Cyfansoddiad Enghreifftiol Drafft a Chanllaw Cyfansoddiad Enghreifftiol Drafft.

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2022, cytunwyd ar nifer o ddiwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor hwn sy'n ymwneud â darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yr oedd yn ofynnol iddynt fod yn eu lle erbyn 5 Mai, 2022.

Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad, gan roi sylw i'r Etholiadau Llywodraeth Leol sydd ar y gweill ym mis Mai 2022, pe bai unrhyw newidiadau pellach yn cael eu hargymell i swyddogaethau dewis lleol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor, yn dilyn trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth newydd, byddai'r Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiadau pellach i'w hystyried fel y bo'n briodol.

Yn dilyn cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft a ystyriwyd yn gynharach yn y cyfarfod hwn, byddai'r holl ddiwygiadau gan gynnwys y rhai y cytunwyd arnynt ar 7 Mawrth, 2022, yn cael eu cynnwys mewn Cyfansoddiad diwygiedig a fyddai'n cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ynghyd â'r Canllaw Drafft, os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor, dim hwyrach na 5 Mai, 2022.

Gofynnodd yr Arweinydd i Argymhelliad (3) yn yr adroddiad gael ei ddiwygio i gynnwys y gair "Canllaw" ar ddiwedd y frawddeg.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) YR argymhellir i'r Cyngor y dylid diwygio pob cyfeiriad at ddefnyddio'r term "Gweithrediaeth" ar gyfer corff gwneud penderfyniadau'r Cyngor i ddarllen "Cabinet" o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

(2) BOD yr adroddiad a'r Canllaw Cyfansoddiad Enghreifftiol drafft sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A yn cael eu cymeradwyo a'u hanfon at y Cyngor Llawn i'w cymeradwyo.

(3) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael awdurdod dirprwyedig mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i fynd i'r afael ag unrhyw wallau teipograffyddol a gwneud unrhyw fân ddiwygiadau yng Nghanllaw Cyfansoddiad y Cyngor.

(4) BOD y defnydd o'r weithdrefn benderfynu frys fel y'i nodir yn 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei arfer er mwyn i'r Cyngor Llawn ystyried y Canllaw Cyfansoddiad Enghreifftiol drafft a'r adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn ystyried deddfwriaeth ac er mwyn eglurder ac at ddibenion cysondeb.

No.

(2) Er mwyn ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(3) Er mwyn i Ganllaw Cyfansoddiad y Cyngor gael ei ddiwygio fel y bo'n briodol.

(4) Er mwyn i'r Cyngor Llawn allu ystyried yr adroddiad a'r canllaw drafft ar yr un diwrnod â'r Cabinet.

**C927 GWASANAETH COFRESTRU - ANGLADDAU SIFIL (WCRC)
(CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol a ffioedd a thaliadau cysylltiedig o fewn adran Gwasanaethau Cofrestru'r Cyngor ar gyfer 2022/23.

Roedd y ffioedd arfaethedig yn adlewyrchu'r amser a'r arbenigedd staff ychwanegol sydd eu hangen i gynllunio a chyflwyno seremoni angladd.

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, roedd angladdau nad ydynt yn grefyddol wedi dod yn norm. Fel darparwr seremonïau a gweinyddion sifil sefydledig, roedd Gwasanaeth Cofrestru'r Fro mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaeth o'r fath a mynd i mewn i'r farchnad hon.

Eglurodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r newidiadau'n mynd â gwaith oddi ar drefnwyr angladdau.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) DYLID nodi'r adroddiad.

(2) YN UNOL â Phenderfyniad (1), cymeradwyo cyflwyno'r gwasanaethau ychwanegol a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer y Gwasanaeth Cofrestru fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Gwella'r opsiynau sydd ar gael i drigolion Bro Morgannwg a'r rhai nad ydynt yn drigolion wrth ddewis Bro Morgannwg ar gyfer angladd, a chael cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno ffioedd a thaliadau cysylltiedig.